**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

# Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000

## Y Cefndir

Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ymgymryd â'i swyddogaethau ar 1 Medi eleni.

Mae ei swyddogaethau'n cynnwys cadw cofrestr o athrawon a chyhoeddi cod ymarfer a fydd yn pennu'r safonau ymddygiad a'r arferion proffesiynol a ddisgwylir oddi wrth athrawon cofrestredig.

Mae'r rheoliadau presennol yn cynnwys materion manwl ynghylch cadw'r gofrestr a datgelu'r wybodaeth sy'n cael i chynnwys ynddi. Maent hefyd yn cynnwys darpariaethau ynghylch trefnu bod copïau o'r Cod Ymarfer ar gael.

## Rheol Sefydlog 11.5

Am eu bod wedi cael cyfle i weld drafft cynnar o'r Rheoliadau hyn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i godi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi cael sylw yn y drafft presennol.

Gan hynny, nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi yn faterion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

## Sylwadau Cyffredinol

### Rheoliad 2(1)

Mewn perthynas â'r diffiniad o "athro neu athrawes uwch-fedrau" ni freiniwyd y swyddogaeth ardystio yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac nid yw wedi'i breinio yn awr yn y Cynulliad. Mae'r diffiniad yn dod o'r Ddogfen ar Dâl ac Amodau Athrawon Ysgol. Mae'r Ddogfen yn effeithiol yn rhinwedd Gorchymyn Addysg (Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol), sydd wedi'i wneud o dan Ddeddf Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol 1991. Nid yw'r swyddogaethau o dan y Ddeddf honno wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad.

### Troednodyn (ll)

Bydd angen newid y croes-gyfeiriad at droednodyn (c) pan gaiff y troednodiadau eu gosod ar y

tudalennau priodol yn y fersiwn brintiedig.

**J H Turnbull**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-093

1 Mehefin 2000